



Welsh Government
Consultation Document

A55 Junctions 15 and 16 improvements

Date of issue: 04 June 2018

Action required: Responses by 28 August 2018

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

Overview

This consultation is being held to showcase the proposed options for the improvements at A55 junctions 15 and 16.

How to respond

The consultation includes a set of specific questions to which the Welsh Government would welcome your response.

Responses are welcome in either English or Welsh and should be sent by email or post to arrive no later than 28 August 2018.

You can reply in any of the following ways.

Online: <https://beta.gov.wales/a55-junctions-15-16-improvements-welsh-stage-2>

Email:

Please complete the consultation response form at the end of this document and email to A55Junctions15and16Consultation@gov.wales (please include 'A55 Junctions 15 and 16 improvements Consultation' in the subject line)

Post:

Please complete the consultation response form at the end of this document and post to:

A55 Junctions 15 and 16 Consultation
FREEPOST
Welsh Government
Sarn Mynach
Llandudno Junction
Conwy
LL31 9RZ

Further information and related documents

Large print, Braille and alternative language versions of this document are available on request.

Contact details

For further information:

Public Liaison Officer

Email: A55J15J16@ramboll.com

Telephone: 07806 737353

General Data Protection Regulation (GDPR)

The Welsh Government will be data controller for any personal data you provide as part of your response to the consultation. Welsh Ministers have statutory powers they will rely on to process this personal data which will enable them to make informed decisions about how they exercise their public functions. Any response you send us will be seen in full by Welsh Government staff dealing with the issues which this consultation is about or planning future consultations. Where the Welsh Government undertakes further analysis of consultation responses then this work may be commissioned to be carried out by an accredited third party (e.g. a research organisation or a consultancy company). Any such work will only be undertaken under contract. Welsh Government's standard terms and conditions for such contracts set out strict requirements for the processing and safekeeping of personal data.

In order to show that the consultation was carried out properly, the Welsh Government intends to publish a summary of the responses to this document. We may also publish responses in full. Normally, the name and address (or part of the address) of the person or organisation who sent the response are published with the response. If you do not want your name or address published, please tell us this in writing when you send your response. We will then redact them before publishing.

You should also be aware of our responsibilities under Freedom of Information legislation

If your details are published as part of the consultation response then these published reports will be retained indefinitely. Any of your data held otherwise by Welsh Government will be kept for no more than three years.

Your rights

Under the data protection legislation, you have the right:

- to be informed of the personal data holds about you and to access it
- to require us to rectify inaccuracies in that data
- to (in certain circumstances) object to or restrict processing
- for (in certain circumstances) your data to be 'erased'
- to (in certain circumstances) data portability
- to lodge a complaint with the Information Commissioner's Office (ICO) who is our independent regulator for data protection.

For further details about the information the Welsh Government holds and its use, or if you want to exercise your rights under the GDPR, please see contact details below:

Data Protection Officer:
Welsh Government
Cathays Park
CARDIFF
CF10 3NQ

e-mail:

Data.ProtectionOfficer@gov.wales

The contact details for the Information Commissioner's Office are:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Tel: 01625 545 745 or
0303 123 1113


Website: <https://ico.org.uk/>



Llywodraeth Cymru
Welsh Government


GWELLIANNAU CYFFYRDD 15 AC 16 YR A55

A55 JUNCTIONS 15 & 16 IMPROVEMENTS




Dydd Mawrth 12 Mehefin 2018 (10yb - 8yh)
Neuadd Plwyf Sant Gwynin, Ffordd
Ysguborwen, Dwgyfylchi LL34 6TR

Tuesday 12 June (10am - 8pm)
St Gwynin's Parish Hall, Ysguborwen Road,
Dwgyfylchi, LL34 6TR



Dydd Mercher, 13 Mehefin 2018 (10yb - 8yh)
Canolfan Gymunedol Penmaenmawr, Ffordd
Conwy, Penmaenmawr, LL34 6AB

Wednesday 13 June (10am - 8pm)
Penmaenmawr Community Centre, Conway
Road, Penmaenmawr, LL34 6AB



Dydd Iau, 14 Mehefin 2018 (10yb - 8yh)
Canolfan Gymunedol Llanfairfechan, Village
Rd, Llanfairfechan, LL33 0NH

Thursday 14 June (10am - 8pm)
Llanfairfechan Community Centre, Village Rd,
Llanfairfechan, LL33 0NH



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**

CYNLLUN GWELLIANNAU CYFFYRDD 15 AC 16 YR A55

Arddangosfa Ymgynghoriad Cyhoeddus Cam 2 WeITAG

Mae'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal i arddangos yr opsiynau arfaethedig i wneud gwelliannau yng nghyffyrdd 15 ac 16 yr A55. Mae'n ddilyniant i'r Arddangosfeydd Gwybodaeth Gyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2017, a ddisgrifiodd yr astudiaethau a gynhaliwyd i ymchwilio i'r opsiynau posib ar gyfer cyffyrdd 15 ac 16.

Mae Ymgynghoriad Cyhoeddus Cam 2 WeITAG yn rhedeg o 4 Mehefin i 28 Awst 2018. Mae'r ddogfen ymgynghori yn disgrifio sut allwch chi gymryd rhan. Mae hefyd yn darparu:

- Manylion yr Arddangosfeydd Ymgynghoriad Cyhoeddus (ar y clawr blaen);
- Manylion y weithdrefn sydd wedi'i dilyn ar gyfer gwerthuso'r opsiynau sy'n cael eu cyflwyno;
- Gwybodaeth ar sut allwch chi gyflwyno eich barn i ni; a
- Gwybodaeth ynghylch beth fydd yn digwydd unwaith y bydd y cyfnod ymgynghori ar ben.

Bydd aelodau tîm y prosiect yn bresennol yn yr arddangosfeydd a byddant yn hapus i'ch cynorthwyo ag unrhyw ymholiadau sydd gennych ynghylch y wybodaeth a gyflwynir. Os nad ydych yn medru bod yn bresennol, gallwch wneud ymholiadau drwy gysylltu â'r Swyddog Cyswllt Cyhoeddus ar e-bost A55J15J16@ramboll.com.

Diben y prosiect

Cyffyrdd 15 a 16 ar yr A55 yw'r unig ddwy gylchfan ar Rwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd E22 (TEN-T). Mae hyn yn achosi problemau i'r traffig sy'n defnyddio'r A55 sy'n teithio ar hyd y llwybr.

Diben y prosiect hwn yw cael gwared ar y ddwy gylchfan ar gyffyrdd 15 ac 16 yr A55, a'u hamnewid gyda chyffyrdd uwchradd. Bydd y cyffyrdd newydd yn golygu na fydd angen i draffig arafu wrth y cylchfannau, gan leihau oedi. Drwy gael gwared ar y cylchfannau, bydd y cyffyrdd yn fwy diogel i draffig sy'n teithio ar hyd yr A55, ac i bobl sy'n dymuno ymuno neu ymadael â'r A55 yn y lleoliadau hyn. Bydd y prosiect hefyd yn ymdrin â nifer o nodweddion is-safonol ar y gefnffordd gerllaw'r cyffyrdd hyn.

Amcan allweddol y cynllun yw gwella mynediad i farchnadoedd a chyfleoedd gwaith rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol; yn ogystal â gwella gwytnwch a diogelwch, a lleihau oedi i draffig lleol ynghyd â phobl sy'n teithio ar hyd yr A55. Gweler drosodd fanylion pellach ynghylch amcanion y prosiect.



A55 JUNCTIONS 15 & 16 IMPROVEMENTS

WeITAG Stage 2 Public Consultation exhibition

This consultation is being held to showcase the proposed options for the improvements at A55 junctions 15 and 16. It follows on from the Public Information Exhibitions that were held in December 2017, which described the studies that had been carried to investigate potential options for junctions 15 and 16.

The WeITAG Stage 2 Public Consultation runs from the 4 June to 28 August 2018. This consultation document describes how you can take part. It also provides:

- Details of the Public Consultation Exhibitions (on the front cover);
- Details of the procedure that has been followed for the appraisal of the options that are being presented;
- Information on how you can give us your views; and
- Information regarding what will happen once the consultation period is over.

Members of the project team will be in attendance at the exhibitions and will be happy to assist you with any queries that you may have about the information presented. If you are unable to attend in person, queries can be made by contacting the Public Liaison officer by email A55J15J16@ramboll.com.

Purpose of the project

The A55 junctions 15 and 16 are the only two roundabouts on the Euroroute E22 Trans-European Transport Network (TEN-T). This causes problems to the traffic using the A55 travelling along the route.

The purpose of the project is to remove the two roundabouts at A55 junctions 15 and 16, and replace them with upgraded junctions. The new junctions will mean that traffic will not need to slow down at the roundabouts, reducing delays. The removal of the roundabouts will also make the junctions safer both to traffic travelling along the A55, and for people wishing to enter and leave the A55 in these locations. The project will also address a number of substandard features of the trunk road in the vicinity of the junctions.

The key objective for the scheme is to improve access to regional, national and international markets and employment opportunities; in addition to improving resilience and safety, and reducing delays both to local traffic as well as for people travelling along the A55. Further detail regarding the project objectives can be found overleaf.

Y GWEITHDREFNAU I'W DILYN

Mae cynllun gwelliannau Cyffyrdd 15 ac 16 yr A55 wedi'i asesu gan ddefnyddio gweithdrefn Arweiniad ar Arfarnu a Chynllunio Trafnidiaeth Cymru ('WelTAG') 2017. Cyflwynir canlyniadau'r arfarniad hwn fel rhan o'r ymgynghoriad hwn

Prif ddiben WelTAG yw adnabod y cynllun mwyaf buddiol a chaniatáu i gynlluniau gael eu cymharu ar sail cyfatebol. Mae'n cyflawni hyn drwy ddarparu fframwaith i ystyried newidiadau arfaethedig i'r system trafnidiaeth. Yn benodol, mae'r weithdrefn yn ystyried y manteision i'r gymuned, yn ogystal â rhoi ystyriaeth i gynaliadwyedd a saith 'nod llesiant' Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Mae tri phrif gam i'r Broses WelTAG:

- Cam 1 WelTAG: Achos Amlinellol Strategol
- Cam 2 WelTAG: Achos Busnes Amlinellol
- Cam 3 WelTAG: Achos Amlinellol Busnes Llawn


Ar hyn o bryd, rydym ar Gam Ymgynghoriad Cyhoeddus o fewn Cam 2 WelTAG.

Yn ystod Cam 1 WelTAG

Tynnwyd sylw at Achos Amlinellol Strategol, materion a phroblemau, a datblygwyd rhestr faith o ddatrysiadau posib. O'r rhain, cyflwynwyd y pum opsiwn oedd yn perfformio orau ar gyfer pob cyffordd a oedd wedi'u cyflwyno mewn astudiaethau blaenorol yn yr Arddangosfeydd Gwybodaeth Cyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2017. Dymunwn ddiolch i bawb a fynychodd yr arddangosfeydd hyn ac i bawb a gyflwynodd eu barn. Rydym wedi gwrandao ar eich barn ac wedi ystyried hynny wrth ddiweddarau amcanion y prosiect a'r rhestr fer o opsiynau sy'n cael eu cyflwyno fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Yn ystod Cam 2 WelTAG

Achos Busnes Amlinellol, mae'r opsiynau'n cael eu harchwilio mewn mwy o fanylder gyda'r nod o fireinio'r rhestr dan ystyriaeth. Mae'r asesiad WelTAG yn cynnwys asesiad o unrhyw effeithiau posib a chyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r opsiynau, gan gynnwys effeithiau cymdeithasol a diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd. Mae'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus Cam 2 WelTAG hwn yn gymorth i hysbysu'r penderfyniad ynghylch yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio cyn y datblygir yr achos busnes llawn yng Ngham 3 WelTAG.



PROCEDURES TO BE FOLLOWED

The A55 Junction 15 & 16 Improvements scheme has been assessed using the Welsh Transport Planning Appraisal Guidance ('WelTAG') 2017 procedure. The results of this appraisal are presented as part of this consultation.

The primary purpose of WelTAG is to identify the most beneficial scheme and to allow the comparison of schemes on a like-for-like basis. It achieves this by providing a framework for thinking about proposed changes to the transport system. In particular the procedure considers benefits to the community, in addition to giving consideration to sustainability and the seven 'well-being goals' of the Well-being of Future Generations Act 2015.

There are three main stages of the WelTAG Process:

- WelTAG Stage 1: Strategic Outline Case
- WelTAG Stage 2: Outline Business Case
- WelTAG Stage 3: Full Business Outline Case


We are currently at the Public Consultation Stage within the WelTAG Stage 2

During WelTAG Stage 1

Strategic Outline Case, issues and problems were identified, and a wide list of potential solutions were developed. Of these, the five best performing options for each junction which had been put forward in previous studies were presented in the Public Information Exhibitions held in December 2017. We would like to thank everyone who attended these exhibitions and who provided us with their views. We have listened to your opinions and have taken them into consideration when updating the project objectives and the short-list of options which is being presented as part of this consultation.

During WelTAG Stage 2

Outline Business Case, the options are examined in greater detail with the aim of refining the list under consideration. The WelTAG assessment includes an assessment of any potential impacts and constraints associated with the options, including social and cultural, environmental and economic impacts. The information that you provide during this WelTAG Stage 2 public consultation will help inform the decision regarding the preferred option before the full business case is developed at WelTAG Stage 3.



TROSOLWG O'R OPSIYNAU

Yn dilyn yr Arddangosfa Gwybodaeth Gyhoeddus, adolygwyd amcanion y prosiect ac fe'i diweddarwyd er mwyn ystyried yr ymateb a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad, i sicrhau y materion megis y rhai oedd yn gysylltiedig â llesiant pobl a'r effaith hirdymor (weledol) ar y tirwedd a'r trefwedd.

Rhestrir isod amcanion y prosiect, sydd wedi'u diweddarau:

- OBJ1

Gwella mynediad i farchnadoedd rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol a gwella mynediad i gyfleoedd gwaith
- OBJ2

Gwella diogelwch ffordd ar yr A55 o Gyffordd 14 i Gyffordd 16A
- OBJ3

Gwella amseroedd siwrne a dibynadwyedd amseroedd siwrne ar yr A55 o Gyffordd 14 i Gyffordd 16A
- OBJ4

Gwella gwytnwch ar yr A55 i draffig strategol a lleol
- OBJ5

Gwella amseroedd siwrne, dibynadwyedd amseroedd siwrne a diogelwch ar gyfer mynediad ar yr A55
- OBJ6

Lleihau datgysylltiad ag ardaloedd arfordirol ar gyfer Defnyddwyr Di-fodur a gwella'r ddarpariaeth sydd ar gael i gerddwyr a beicwyr
- OBJ7

Cymryd camau rhesymol i adeiladu cymunedau iachach a gwell amgylcheddau
- OBJ8

Cyfleoedd i ddarparu trafnidiaeth integredig yn cynyddu

Lle'n ddichonadwy, mae datrysiadau wedi eu datblygu i ddarparu symudiad pedair-ffordd. Gellir gyflawni hyn trwy naill ai ddarparu pont dros yr A55 neu drwy godi'r A55 ar arglawdd a darparu twnnel o danodd. Fodd bynnag, yn sgil cyfyngiadau tynn, nid yw'n bosibl darparu symudiadau pedair-ffordd ar gyfer yr holl opsiynau.

Mae pob opsiwn wedi'i asesu'n ansoddol yn erbyn meini prawf WelTAG fel bo modd cymharu'r effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Yn ogystal, mae'r opsiynau wedi'u hasesu yn erbyn meini prawf technegol gyda'r nod o:

- Wella cydymffurfiaeth â'r safonau dylunio (i wella diogelwch);
- Gostwng yr angen i leihau cyfyngiadau cyflymder ar hyd yr A55 (i leihau oedi);
- Lleihau aflonyddwch yn ystod y gwaith adeiladu (i drigolion a busnesau lleol, ac ar hyd yr A55 ei hun).

Gweler crynodeb o'r asesiad hwn yn Nhabl Crynhoi Arfarniad Cam 2 WelTAG.

AN OVERVIEW OF THE OPTIONS

Following the Public Information Exhibition, the project objectives were reviewed and updated to take into account feedback from the consultation, to ensure issues such as those associated with people's well-being and the long term (visual) impact on the landscape and townscape were captured.

The updated project objectives are listed below:

- OBJ1

Improve access to regional, national and international markets and improve access to employment opportunities
- OBJ2

Improve road safety on the A55 from Junction 14 to Junction 16A
- OBJ3

Improve journey times and journey time reliability on the A55 from Junction 14 to Junction 16A
- OBJ4

Improve resilience on the A55 for strategic and local traffic
- OBJ5

Improve journey times, journey time reliability and safety for access onto the A55
- OBJ6

Reduce severance with coastal areas for the Non-Motorised Users and enhance provision made for walkers and cyclists
- OBJ7

To take reasonable steps to build healthier communities and better environments
- OBJ8

Opportunities to provide integrated transport are increased



Where feasible, solutions have been developed to provide four-way movements. This can be achieved by either providing a bridge over the A55 or elevating the A55 on embankments and providing a tunnel underneath. However due to space constraints, providing four-way traffic movements is not possible for all of the options.

Each option has been assessed qualitatively against the WelTAG criteria to allow the economic, environmental and social impacts to be compared. The options have also been assessed against technical criteria with the aim of:

- Improving compliance with design standards (to improve safety);
- Minimising the need to reduce speed limits along the A55 (to reduce delays);
- Minimising disruption during construction (to local residents and businesses, as well as along the A55 itself).

A summary of this assessment can be found on the WelTAG Stage 2 Appraisal Summary Table.

CYFYNGIADAU AMGYLCHEDDOL AR GYFER
CYFFYRDD 15 AC 16
ENVIRONMENTAL CONSTRAINTS
FOR JUNCTIONS 15 & 16



Nodir manylion ynghylch y cyfyngiadau amgylcheddol allweddol sy'n dylanwadu ar y datrysiadau ar gyfer cyffyrdd 15 ac 16 ac fe'u dengys ar y cynllun cyfyngiadau amgylcheddol. Darperir gwybodaeth bellach ynghylch sut allai'r opsiynau effeithio ar yr amgylchedd.

Y gymuned a defnydd tir

- Llwybrau strategol, e.e. Llwybr Arfordir Cymru a Llwybr 5 Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol ac ardaloedd sydd wedi'u dynodi fel Tir Mynediad Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW) 2000
- Cyfleusterau gwasanaethau cymunedol
- Effeithiau traffig ar gymunedau lleol
- Hygyrchedd i'r rhwydwaith ffyrdd

Y Dirwedd, y Drefwedd a Threftadaeth

- Parc Cenedlaethol Eryri
- Mae Ardaloedd Cadwraeth yng nghanol trefi ac mewn ardaloedd eraill ym Mhenmaenmawr a Llanfairfechan
- Mae Heneb Gofrestredig (Cylchoedd cytiau ger Wern Newydd i'r de o'r A55)
- 12 Adeilad Rhestredig o fewn 500 metr i'r cyffyrdd
- Parciau a Gerddi Cofrestredig Wern Isaf a Bryn-y-Neuadd yn Llanfairfechan
- Tirwedd Hanesyddol Rhestredig (RHL) Gogledd Arllechwedd, yn ymdrin â'r ddwy gyffordd; a thri RHL arall
- Mae Cynllun Datblygu Unedol Sir Conwy yn dynodi Ardal Gwerth y Dirwedd a Pharth Arfordirol

Cadwraeth a Bywyd Gwyllt

- Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Y Fenai a Bae Conwy i'r gogledd
- ACA Coedydd Aber, SoDdGA a Gwarchodfa Natur Cenedlaethol (NNR), i'r de
- ACA Eryri a SoDdGA Eryri tua'r de
- Ardal Gwarchod Arbennig (SPA) Bae Lerpwl tua'r gogledd
- Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Traeth Lafan a Gwarchodfa Natur Leol (LNR) tua'r gogledd
- SoDdGA Bwlch Sychnant i'r de o Gyffordd 16
- SoDdGA Cadnant
- SoDdGA Coed Benarth
- SoDdGA Aber Afon Conwy, 6.22km i'r dwyrain
- SoDdGA Chwareli a Glaswelltir Deganwy tua'r dwyrain

The key environmental constraints identified as influencing the solutions for junctions 15 & 16 are detailed below and shown on the environmental constraints plan. Further information regarding how the options might affect the environment is provided.

Community and land use

- Strategic footpaths e.g. the Wales Coastal Path and Route 5 National Cycle Network and areas designated as the Countryside and Rights of Way Act 2000 (CROW) Access Land
- Community services facilities
- The effects of traffic on local communities
- Accessibility to the road network

Landscape, townscape and Heritage

- Snowdonia National Park
- There are Conservation Areas in the town centres and in other areas in Penmaenmawr and Llanfairfechan.
- There is a Scheduled Ancient Monument (Hut circles near Wern Newydd south of the A55)
- 12 Listed Buildings within 500 metres of the junctions
- Wern Isaf and Bryn-y-Neuadd Registered Parks and Gardens in Llanfairfechan
- North Arllechwedd Registered Historic Landscape (RHL), covering both junctions; and three other RHL
- Conwy County Unitary Development Plan designates a Landscape Value Area and a Coastal Zone

Conservation and Wildlife

- Menai Strait and Conwy Bay Special Area of Conservation (SAC) to the north
- Coedydd Aber SAC, SSSI and National Nature Reserve (NNR), to the south
- Snowdonia SAC and Eryri SSSI to the south
- Liverpool Bay Special Protection Area (SPA) to the north
- Traeth Lafan Site of Special Scientific Interest (SSSI) and Local Nature Reserve (LNR) to the north
- Sychnant Pass SSSI to the south of J16
- Cadnant SSSI
- Benarth Wood SSSI,
- Aber Afon Conwy SSSI, 6.22km the east
- Deganwy Quarries and Grassland SSSI to the east

DISGRIFIAD O'R CYFYNGIADAU AMGYLCHEDDOL

Sŵn

Os rhagwelir cynnydd sylweddol mewn sŵn traffig, mae'n debyg y byddai mesurau lleihau sŵn ar ymyl y ffordd yn cael eu hymgorffori. Byddai'r gwelliannau yn y ddwy gyffordd yn arwain at draffig yn teithio ar gyflymder uwch, ac fel arfer, mae hyn yn arwain at gynnydd mewn sŵn traffig ar y ffordd. Efallai y gellir gwrthbwysu hyn drwy ddefnyddio deunydd wynebu sŵn isel, llai o sŵn gan nad oes angen i gerbydau mawr gyflymu, a chael gwared ar y sribedi rymblan. Pan fo'r gwelliannau arfaethedig yn rhoi llai na mynediad llawn i'r A55 gall traffig lleol ychwanegol sydd ar y ffordd wyro ar ffyrdd lleol neu ffyrdd cyswllt newydd, gan greu sŵn traffig ger ardaloedd preswyl.

Ansawdd Aer Lleol

Mae cerbydau sy'n defnyddio'r cylchfannau yn arafu, yn brecio ac yna'n cyflymu'n sydyn ac mewn cyfnodau prysur mae ciwiau'n datblygu ac injans yn mynd yn segur. Gall yr amodau hyn arwain at fwy o lygredd, ond mae'r lleoliad arfordirol agored yn sicrhau symudiad rhydd aer er mwyn gwasgaru'r allyriadau yn rhwydd. Byddai cael gwared ar y cylchfannau yn hwyluso llif rhwydd traffig ar gyflymderau uwch. Nid oes yr un o'r opsiynau hyn yn cael eu hystyried yn debygol o fod yn fwy na'r safonau cenedlaethol ar gyfer ansawdd aer mewn eiddo preswyl. Byddai nitrogen deuocsid (NO2) a deunydd gronynnol (PM10) yn parhau'n llawer is na'r safonau cenedlaethol.

Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr

Yn y byrdymor, byddai'r holl opsiynau yn arwain at allyriadau tebyg o gerbydau i'r hyn sy'n digwydd yn barod. Fodd bynnag, byddai'r traffig sy'n lifo'n rhwydd yn cynhyrchu llai o Garbon Deuocsid (CO2) o geir, ond allyriadau CO2 fymryn uwch o gerbydau eraill, megis cerbydau HGV.

Y Dirwedd, Y Drefwedd a'r Amgylchedd Hanesyddol

Byddai'r holl opsiynau yn newid y dirwedd a'r golygfeydd i'r môr ac o ardaloedd preswyl, mannau cyhoeddus a'r bryniau o amgylch. Mae'r cyffyrdd presennol yn cael effaith andwyol ar olygfeydd o eiddo sy'n goredrych yn barod. Byddai opsiynau sy'n gofyn am bontydd a slipffyrdd uchel yn fwy gweledol, yn enwedig o eiddo preswyl sydd â golygfa dros yr A55 ar hyn o bryd. Mae sawl dynodiad treftadaeth a allai gael ei effeithio'n andwyol gan newidiadau i'r lleoliad. Gellir Ardal Cadwraeth Llanfairfechan gael ei amharu'n uniongyrchol gan welliannau Cyffordd (C) 15. O ran eiddo gerllaw'r gylchfan gyfredol yng C15, bydd slipffyrdd uchel yn pasio yn agos atynt mewn rhai opsiynau. Ar gyfer Opsiwn B C15, sy'n cynnwys linc i'r Promenâd, efallai y ceir effaith niweidiol ar olygfeydd o'r ardaloedd preswyl a'r lle agored cyhoeddus i'r gogledd o'r rheilffordd. Gellir Opsiwn A C16 gael effaith ar olygfeydd gan y byddai'n symud y gyffordd a'r bont a'r slipffyrdd cysylltiedig tua'r dwyrain gyda rhannau newydd o ffyrdd lleol yn rhedeg drwy

gaeau i'r gogledd o Ddwygyfylchi.

Bioamrywiaeth

Gwyddys bod rhywogaethau adar sy'n gaeafu, sy'n nodweddion cymwys yr AGA, y biden fôr a rhywogaethau hirgoes eraill, yn chwilota ar lanw uchel ar dir pori gyferbyn â'r ddwy gyffordd. Gallai gwaith adeiladu yn ystod y gaeaf arwain at aflonyddu ar yr adar hyn a cholli cynefin chwilio dros dro. Gallai'r holl opsiynau aflonyddu ar gynefin ar ymyl yr A55, neu ei ddinistrio, ond ni fydd yr un yn cymryd cynefin o fewn ACA/AGA dynodedig sydd o bwys rhyngwladol, na'r SoDdGA sydd o bwys cenedlaethol. Ystyrir ei bod yn annhebygol y bydd y cynefinoedd sy'n cefnogi Rhywogaethau Gwarchodedig, megis ystlumod ac ymlusgiaid, yn cael eu heffeithio. Byddai cael cynefin yn ei le, drwy blannu coed a phrysglwyni o amgylch y cyffyrdd newydd, er enghraifft, yn lliniaru yn erbyn unrhyw golled ac mae'n bosib y gallai ddarparu ychwanegiadau a allai annog mwy o fioamrywiaeth.

Yr Amgylchedd Dŵr

Mae dŵr wyneb o'r ddwy gyffordd yn pasio drwy draeniad y briffordd ac yn arllwys i fewn i'r môr. Gallai newidiadau i'r cyffyrdd, a'r gwaith adeiladu, arwain at newidiadau i faint o ddŵr sy'n cael ei arllwys. Gallai newidiadau i'r draenio effeithio ar y risg o orlifo, yn enwedig mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd yn barod. Pan ragwelir effaith arwyddocaol ar ansawdd dŵr arfordirol, fe ymgorfforir mesurau i leihau'r effaith. Ni ystyrir bod cronfeydd dŵr daear lleol mewn perygl yn sgil y gwelliannau arfaethedig. Fodd bynnag, rheolir gweithrediadau adeiladu i leihau'r risg o ddifrod i ansawdd dŵr wyneb a dŵr daear.

Priddoedd a Daeareg

Byddai nifer o'r opsiynau ar y gyffordd yn cynnwys gwaith mewn ardaloedd pan allai defnyddiau blaenorol fod wedi halogi'r ddaear, a gallai gwaith adeiladu aflonyddu ar hynny. Gallai dyluniad y gwelliannau a trefniad y gwaith adeiladu leihau'r perygl o aflonyddu yr ardaloedd o'r fath yma, a lle y daw ar draws tir halogedig y bydd yn cael ei drin.

Effeithiau Cymunedol

Mae Llanfairfechan, Penmaenmawr a Dwygyfylchi yn agos i'r cyffyrdd ac yn darparu gwasanaethau cymunedol pwysig. Er y gallai traffig brofi oedi yn ystod y gwaith o adeiladu'r gwelliannau, ystyrir na fydd y gwasanaethau hyn yn cael eu heffeithio'n andwyol gan y bydd y camau lliniaru arfaethedig (megis rheolaeth traffig) yn lleihau'r oedi. Mae'n debygol na fydd y gwelliannau a gwblheir i'r cyffyrdd yn cael unrhyw effaith andwyol ar fynediad i gyfleusterau lleol. Yn lle hynny, fe allant wella cyflymder mynediad i'r cyfleusterau sy'n bwysicach yn rhanbarthol, megis ysbytai.

DESCRIPTION OF ENVIRONMENTAL CONSTRAINTS

Noise

Should a significant increase in traffic noise be predicted, it is anticipated that roadside noise reduction measures would be incorporated. The improvements of both junctions would result in increased traffic speed, which would normally mean an increase in road traffic noise. This may be offset by the use of low noise surfacing, reduced noise due to large vehicles not needing to accelerate, and the removal of the rumble strips. Where the proposed improvements provide less than full access to the A55 additional local road traffic may divert onto local roads or new link roads, generating traffic noise close to residential areas.

Local Air Quality

Vehicles using the roundabouts decelerate, brake and accelerate away rapidly and in busy periods queues develop with engines idling. These conditions can result in increased pollution, but the open coastal setting ensures free-movement of air to readily disperse emissions. Removing the roundabout would facilitate free-flowing traffic at greater speeds. Currently air quality meets national standards and none of the options are considered likely to exceed these at residential properties. Nitrogen dioxide (NO2) and particulates (PM10) would remain well below the national standards.

Greenhouse Gas Emissions

In the short term all options would result in similar vehicle emissions to the existing situation. However, the free-flowing traffic would produce reduced Carbon Dioxide (CO2) from cars, but slightly higher CO2 emissions from other vehicles, such as HGVs.

Landscape, Townscape and Historic Environment

All options would change the landscape and views to the sea and from residential areas, public places and the surrounding hills. The existing junctions already have an adverse effect on views from overlooking properties. Options requiring elevated bridges and slip roads would be more visible, particularly from residential properties that currently have a view over the existing A55. There are several heritage designations which could be adversely affected by changes to setting. The Llanfairfechan Conservation Area could be directly affected by Junction (J) 15 improvements. Properties close to the existing roundabout at J15, under some of the options will have elevated slip roads passing close to them. For J15 Option B, which includes a link to the Promenade, there may be adverse effects on views from residential areas and public open space north of the railway. J16 Option A could have an impact on views because it would move the junction and the associated bridge and slip-roads eastwards with new lengths of local roads through field north of Dwygyfylchi. J16 Option B, would be more visible

from the western side of Dwygyfylchi as it requires elevated bridges and slip roads.

Biodiversity

Wintering bird species which are qualifying features of the SPA, oystercatchers and other wading species, are known to forage at high tide within pastureland adjacent to both junctions. Construction works during the winter may result in disturbance to these birds and temporary loss of foraging habitat. All options could disturb or destroy habitat alongside the A55, but none will take habitat within the designated internationally important SACs/SPAs or nationally important SSSIs. Habitats that would be affected are considered unlikely to support Protected Species, such as bats and reptiles. Replacement habitat, such as tree and shrub planting around the new junctions would mitigate for any loss and could provide enhancements that might encourage increased biodiversity.

Water Environment

Surface water from both junctions passes through highway drainage and discharges into the sea. Changes to the junctions, and construction works, could result in changes to the quantity of water discharged. Changes to drainage could affect the risk of flooding, particularly in areas already at risk of flooding. Where a significant impact on coastal water quality is predicted, measures to reduce the impact will be incorporated. Local ground water reserves are not considered to be at risk from the proposed improvements. However, construction operations will be managed to reduce the risk of damage to surface and groundwater quality.


Soils and Geology

A number of the junction options would involve works in areas where previous uses of the land may have left ground contamination, which could be disturbed by construction. The design of improvements and planning of the construction work could reduce the risk of harassment of such areas and where contaminated land is encountered it will be treated.

Community Effects

Llanfairfechan, Penmaenmawr and Dwygyfylchi lie close to the junctions and provide important community services. Although traffic delays might occur during construction of the improvements, these services are considered unlikely to be adversely affected as proposed mitigation (such as traffic management) will minimise delays. The completed improvements to the junctions are likely to have no adverse impact on access to local facilities. Instead they could improve the speed of access to more regionally important facilities such as hospitals.

CYFFORDD 15 YR A55 - OPSIWN A
A55 JUNCTION 15 - OPTION A



Cyffordd 15 - Opsiwn A
O'r holl opsiynau sy'n cael eu cynnig yng nghyffordd 15, yr opsiwn hwn sydd â'r ôl-troed lleiaf a hwn fyddai'n cael yr effaith uniongyrchol leiaf ar y tir o amgylch. Fodd bynnag, nid yw'r opsiwn ond yn caniatáu ar gyfer symudiad ddwy-ffordd, gan ddarparu slipffyrdd i wasanaethu'r traffig sy'n teithio tua'r gorllewin. Byddai angen i draffig sy'n teithio tua'r dwyrain fynd ar yr A55 a'i gadael yng nghyffordd 14. I wneud lle ar gyfer y cynnydd mewn llif traffig cysylltiedig, bwriedir gwneud mân welliannau i gyffordd 14.

Bwriedir darparu un llwybr seiclo/cerddwyr er mwyn parhad. Ni ddisgwylir i hyn effeithio ar yr safleoedd bws presennol.

Junction 15 - Option A
Of all the options being proposed at junction 15, this option has the smallest footprint and would have the least immediate impact on the surrounding land. However, the option only allows two-way movement, providing slip roads serving westbound traffic. Eastbound traffic would need to enter and exit the A55 at junction 14. To accommodate the associated increased traffic flows, it is proposed that minor improvements will be made to junction 14.

It is proposed that a shared cycleway / pedestrian path would be provided to maintain continuity. It is expected that the existing bus-stops will not be affected.

CYFAN 15 - OPSIWN B

JUNCTION 15 - OPTION B



Cyffordd 15 - Opsiwn B

Mae'r opsiwn hwn yn darparu symudiad pedair-ffordd drwy ddefnyddio trosbont. Byddai'r slipffyrdd yn cael eu codi'n uwch yn lleol er mwyn i'r bont basio dros yr A55 a'r rheilffordd. Byddai'r opsiwn hwn yn gofyn am ail-alinio Ffordd Penmaenmawr ac yn sgil hynny, ail-leoli'r safleoedd bws.



Yn ogystal â darparu mynediad i'r Parêd ar gyfer cerbydau mwy, bwriedir cadw'r fynedfa ar gyfer Defnyddwyr di-Fodur drwy Shore Road East. Yn ogystal, bwriedir cael un llwybr seiclo/cerddwyr er mwyn parhad.

Junction 15 - Option B

This option provides four-way movement by utilising an overbridge. The slip roads would be raised locally to allow the bridge to pass over the A55 and railway. This option would require the realignment of Penmaenmawr Road and consequently the repositioning of the bus stops.

In addition to providing access to the Parade for larger vehicles, it is proposed that access would be retained for Non-Motorised Users via Shore Road East. It is also proposed that there will be a shared cycleway / pedestrian path to maintain continuity.

CYFFORDD 15 YR A55 - OPSIWN C
A55 JUNCTION 15 - OPTION C



Cyffordd 15 - Opsiwn C
